CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**15/06/2021**
Teitl:	**Caffael 2 Uned Wasgarog (Diweddariad)**
Diben yr adroddiad:	**Dirymu penderfyniad y Cabinet C150 (ii) ar 23/02/21 a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penderfyniad mewn egwyddor i gaffael ail uned wasgarog yn ardal Aberteifi yn hytrach nag yn ardal Aberystwyth.**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid.**

1. Cyflwyniad

Rhoddodd Penderfyniad y Cabinet C150 ar 23/02/2021 gymeradwyaeth i gaffael dwy uned wasgarog i ddioddefwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol yn ardal Aberystwyth gan ddefnyddio cynllun ariannu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Gymru.

Llwyddwyd i gaffael yr Uned Wasgarog gyntaf yn Aberystwyth. Derbyniwyd cynnig gan yr Asiant/Gwerthwr a chwblhawyd y caffaeliad ar 30 Ebrill 2021.

Y cynnig newydd i'r Cabinet yw newid y penderfyniad mewn egwyddor ynghylch lleoliad yr ail Uned Wasgarog er mwyn i'r lleoliad fod yn ardal Aberteifi yn hytrach nag yn Aberystwyth.

Y rheswm dros y newid yn y lleoliad yw, yn dilyn dadansoddiad pellach o'r galw cynyddol ar draws Ceredigion am lety i ddioddefwyr camdriniaeth sy'n cael eu hadleoli o'r ddwy loches, mae cymorth ychwanegol i ddioddefwyr bellach yn cael ei ddarparu yn ardal Aberteifi. Yn dilyn trafodaeth bellach gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, bernir erbyn hyn mai ardal Aberteifi fyddai'r lleoliad gorau ar gyfer yr ail uned wasgarog. Byddai hyn i bob pwrpas yn cynnig gwasanaeth daearyddol gwell ar draws Ceredigion er mwyn sicrhau digon o gapasiti.

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDAS) yn elusen gofrestredig 3ydd Sector yng Ngheredigion sy'n cefnogi dioddefwyr camdriniaeth. Y bwriad yw y byddant yn prydlesu'r Unedau Gwasgarog ychwanegol gan yr awdurdod.

2. Cost y cynnig a'r sefyllfa o ran cyllido

"Gwybodaeth Eithriedig - Atodiad A (Caffael 2 x Uned Wasgarog)"

Bydd angen uwchraddio'r ddwy uned wasgarog a gosod cyfarpar arbenigol ynddynt gan gynnwys systemau monitro a chael mynediad ar ddrysau gan gynnwys drysau diogelwch, teledu cylch cyfyng, systemau rheoli mynediad a chawodydd mynediad lefel.

Yna bydd yr ail uned ar gael i Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru ar drefniant prydlesu/rhentu treigl ac ar gost fforddiadwy, a bydd y Cyngor yn cadw'r cyfrifoldeb dros yswiriant yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw.

Byddai'r Uned ar gael i'r Gwasanaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar sail 24/7 ar y lefelau rhentu y cytunwyd arnynt fel y nodir yn y cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrydlesu.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam	Na. Mae'r prosiect hwn yn gyfle i fanteisio ar argaeledd cyllid wedi'i dargedu sydd ar gael i Awdurdodau Lleol. Byddai'r cyllid hwn yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol gaffael dau eiddo a fyddai'n helpu i ddarparu gwell gwasanaeth gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDAS) ar draws y Sir yn y dyfodol.
Crynodeb:	
Canlyniadau/Hirdymor:	Dynodwyd y canlynol yn fuddion posibl y gellid eu gwireddu gyda chynnydd / cymeradwyaeth y Prosiect hwn:
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	• Mwy o eiddo addas ar gael ar gyfer dioddefwyr anabl neu deuluoedd â phlant ag anableddau • Mwy o ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr sy'n ddynion • Mwy o ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr LGBTQ+ a all fod yn trawsnewid neu'n cwestiynu • Cefnogi llety â chymorth addas i symud ymlaen o'r lloches wrth bontio i gartref parhaol. • Rhoi capasiti yn y dyfodol i gefnogi uned arfaethedig y

	Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn Ysbyty Bronglais • Sicrhau llety priodol o ran anghenion cymorth unigolion
Cydweithio:	
Cynnwys:	Mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r Gwasanaeth Grant Cymorth Tai ynghyd â chymorth parhaus gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDA) Ceredigion.
Atal:	
Integreiddio:	
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Argymhellion:

Yn unol â: PENDERFYNIAD C150 Caffael 2 x Uned Wasgarog ar gyfer Gwasanaeth Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Ceredigion (23 Chwefror)

1) **Nodi caffael yr Uned Wasgarog gyntaf yn ardal Aberystwyth yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 23/02/21**
2) **Dirymu'r penderfyniad i gaffael yr ail Uned Wasgarog yn Aberystwyth yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 23/02/21**
3) **Cymeradwyo mewn egwyddor caffael yr ail Uned Wasgarog yn ardal De Ceredigion/Aberteifi, a rhoi pŵer dirprwyedig i'r Aelod Cabinet, ar y cyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal i wneud newidiadau yn ôl yr angen i weithredu'r materion a godwyd yn yr Adroddiad.**
4) **Rhoi pŵer dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal wneud newidiadau yn ôl yr angen i weithredu'r materion a godir yn yr adroddiad hwn.**

Y rheswm dros y penderfyniad:	1) Cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau eiddo priodol er mwyn cael mwy o ddarpariaeth o ran llety addas a diogel i'w defnyddio gan rai sy'n ffoi rhag trais domestig.
Trosolwg a Chraffu:	
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2017 – 2022:

Blaenoriaethau Corfforaethol:	**Blaenoriaeth 3** - Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	**Cyllid** - Mae'r model ariannol hwn yn cymryd bod cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi'i gyfuno ag arian cyfatebol y Cyngor i gaffael y ddau eiddo ychwanegol a'u huwchraddio. Byddai Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDA) yna'n ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyngor a fyddai'n rhoi manylion y cyfrifoldebau penodol a'r rhwymedigaethau ar y ddau barti. Byddai'r cytundeb hefyd yn cyfeirio at y cytundeb rhentu/prydlesu lle byddai Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDA) yn talu rhent/prydles fforddiadwy i'r Cyngor. Dylid gallu adennill y buddsoddiad Cyfalaf sy'n ofynnol gan y Cyngor ar ôl cyfnod o 14 mlynedd ar gyfradd llog dybiedig o 2%. Bryd hynny, ni fyddai ad-daliadau parhaus i'r Awdurdod ar wahân i gostau yswiriant a'r gwaith cynnal a chadw. Byddai'r caffaeliadau hefyd yn sicrhau cynnydd yng ngwerth asedau'r Awdurdod dros amser. **Caffael yr eiddo** – Mae copïau o'r llythyron a dderbyniwyd yn cymeradwyo'r tri grant gwahanol ynghyd ag amodau'r grantiau wedi'u hanfon at yr Adrannau Caffael, Cyllid a Chyfreithiol i'w hystyried. Mae dogfen sy'n crynhoi amodau'r grant wedi'i hatodi fel Gwybodaeth Eithriedig ***"Atodiad C – Crynodeb o'r Dyfarniadau Grant".*** **Caffael Gwasanaethau** – Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDAS) sy'n darparu'r gwasanaeth presennol. Daw'r cyllid drwy amryw ffynonellau gan gynnwys y Grant Cymorth Tai a Chyllid Craidd y Cyngor. **Risg o ran cyllid**: Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cyllid refeniw ar wahân i yswiriant yr adeilad a gwaith cynnal a chadw blynyddol.
Goblygiadau Cyfreithiol:	**Materion cyfreithiol** – Dim. **Statws cynllunio** – Anfonwyd cais ffurfiol at Adran Rheoli Datblygu'r Awdurdod ynghylch unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â Chynllunio ar gyfer y defnydd arfaethedig – cadarnhaodd yr ymateb y byddai'r defnydd yn cael ei ystyried yn barhad o'r **Dosbarth Defnydd C3** presennol.
Goblygiadau staffio:	Dim i'r Awdurdod

Goblygiadau Eiddo/Asedau:	**Yr Adran Ystadau:** **Uned Wasgarog 1:** Cynhaliwyd trafodaethau ar gyfer yr Uned Wasgarog gyntaf mewn ymgynghoriad â Syrfëwr Caffael a Gwaredu'r Cyngor. Cafwyd Arolwg a Phrisiad Sefydliad yr Arolygwyr Siartredig Brenhinol (RICS) ar gyfer Prynwyr Cartrefi ac nid oedd yn nodi unrhyw broblemau arwyddocaol gyda'r eiddo. **Uned Wasgarog 2:** Bydd angen nodi eiddo addas a chynnal Arolwg a Phrisiad Sefydliad yr Arolygwyr Siartredig Brenhinol (RICS) ar gyfer Prynwyr Cartrefi cyn y gellir cwblhau'r trafodaethau.
Risgiau:	**a) Nid oes eiddo addas ar gael:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r cyllid grant gael ei reoli hyd at 2021–22, ond deellir y dylid caffael/darparu'r ail uned wasgarog yn Ch1/Ch2 2021 – 22 fan bellaf neu gellir galw'r cyllid perthnasol yn ôl. **b) Pris prynu'r eiddo yn cynyddu y tu hwnt i'r swm dangosol:** Byddai angen i'r Cyngor ystyried bodloni'r cynnydd neu dynnu'n ôl o'r caffaeliad arfaethedig. **c) Y galw am ddefnydd fel Unedau Gwasgarog yn lleihau:** Monitro angen yn barhaus gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru Ceredigion. Pe na fyddai angen uned yna byddai sawl defnydd cysylltiedig arall ar gael i'r Awdurdod mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru.
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	**a) Gwybodaeth Eithriedig - Atodiad A (Caffael 2 x Uned Wasgarog) – Dyddiedig 23 Chwefror**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal
Swyddog Adrodd:	Keith Davies
Dyddiad:	23 Mai 2021